O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 2090 (Cy. 205) (C. 87)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r ail orchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Addysg (Cymru) 2011 ("Mesur 2011"). Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 22 Awst 2013 Bennod 2 o Ran 2 o Fesur 2011. Mae Pennod 2 o Ran 2 o Fesur 2011 yn gwneud darpariaeth ynghylch hyfforddiant i lywodraethwyr a chlercod a darparu clerc i gorff llywodraethu ysgol.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 9 | 16 Tachwedd 2012 | 2012/2656 (Cy.288) (C.106) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2090 (Cy. 205) (C. 87)

## ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2013

*Gwnaed* *22 Awst 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 32 o Fesur Addysg (Cymru) 2011([1]), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Cychwyn**

**2.** Daw adrannau 22 i 25 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 i rym ar 22 Awst 2013.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

22 Awst 2013

(**1**) 2011 mccc 7.